..........................................

Mae beiciau'n wych. Gallwch chi eu reidio am filltiroedd o le i le heb gynyddu'ch ôl troed carbon o gwbl, ond maen nhw'n wych am reswm arall hefyd - maen nhw'n dda iawn ar gyfer gwneud gwaith celf.

Os edrychwch chi ar y we, fe welwch chi bob math o bethau wedi eu gwneud drwy ailgylchu beiciau, e.e. ffensys wedi eu gwneud o feiciau sy'n sefyll mewn rhesi lliwgar, giât neu glwyd dal sy'n cynnwys beic fel rhan o'r patrwm metel, cerfluniau wedi eu gwneud o feiciau, addurniadau sydd wedi eu gwneud o rannau o feiciau ac sydd wedi eu gosod ar waliau uwchben drysau. Mae hyd yn oed bwrdd wedi ei wneud drwy ddefnyddio pedair olwyn beic fel 'coesau' gyda darn mawr sgwâr o wydr wedi ei osod drostyn nhw. Mae pob cynllun yn arbennig iawn!

Fodd bynnag, mae dau artist yn gwneud gwaith celf rhagorol iawn drwy ddefnyddio beiciau cyfan



neu rannau o feiciau. Eu henwau yw Mark Grieve a'i bartner, Ilana Spector. Ymhlith y gweithiau maen nhw wedi eu cwblhau y mae'r darn hwn o'r enw Cyclisk, sydd wedi ei osod yn Santa Rosa, California.

Tŵr uchel, uchel yw'r gwaith celf hwn ac mae'n debyg i hen obelisg yn yr Aifft. Mae'n mesur tuag ugain metr - yr un uchder ag adeilad pum llawr - ac mae'n pwyso 4,536 kilo. Mae ynddo 340 o feiciau ac un treisicl.

Cafodd y beiciau a rhannau o feiciau eu casglu o'r gymuned er mwyn eu hailgylchu ac roedd pobl wrth eu bodd bod hyn yn digwydd. Roedd hi'n llawer gwell fod y beiciau, neu ddarnau ohonyn nhw, yn cael eu hailgylchu i fod yn ddarn hardd o gelfyddyd yn hytrach na'u bod yn cael eu claddu mewn tomenni sbwriel.

Mae lleoliad y cerflun yn bwysig oherwydd mae wedi ei osod mewn rhan o Santa Rosa lle mae nifer o leoedd gwerthu ceir. Yn wir, rhoddodd cwmni Nissan nawdd sylweddol ar gyfer ei adeiladu. Er bod Grieve yn dweud nad oedd hi'n fwriad atgoffa pobl bod beicio'n fwy cyfeillgar i'r amgylchedd na gyrru, yn sicr, mae'r cerflun yn gallu awgrymu hyn.

Fodd bynnag, nid dyma'r unig gerflun sylweddol mae'r ddau wedi ei wneud drwy ddefnyddio hen feiciau. Yn 2007, adeiladon nhw'r bwa yma o feiciau.

Casglon nhw'r beiciau o domenni sbwriel a'u weldio i greu'r bwa. Yn ôl Mark Grieve, roedd y broses yn un 'organig' - roedd y creu yn debyg i forgrug yn creu pont neu i adar yn creu nythod.

Nod y darn hwn, yn ôl Grieve, oedd creu 'eiliad o lawenydd' a gwneud i'r bobl oedd yn ei weld deimlo'n hapus.

Dim ond am gyfnod y bu'r bwa yn ei le. Roedd yn cynnwys tua 300 o feiciau a chafodd ei osod dros fynedfa i faes parcio ar gyfer beiciau ac yna cafodd ei dynnu i lawr a chafodd y beiciau eu hailgylchu.

Yn sicr, mae'r darn hwn, y darn Cyclisk a'r holl ddarnau eraill sydd wedi eu creu o feiciau, yn ddarnau trawiadol iawn ac maen nhw'n ysbrydoliaeth i eco-artistiaid sy'n gweld gwerth mewn ailgylchu yn hytrach na thaflu i ffwrdd.

